# Rheoli Datgeliad

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Arwyddion cynnar mam: gorbryder, cuddio gwybodaeth oddi wrth bartner, ofn canlyniadau, ansicrwydd ynghylch yr hyn a ddigwyddodd.
- Roedd ganddi amheuon ("Roeddwn i'n gwybod bod rhywbeth o'i le") cyn i staff godi pryderon diogelu'n benodol.
- Defnyddiodd y nyrs gwestiynau tawel, anfeirniadol ac esboniadau clir wrth rannu gwybodaeth a alluogodd mam i ddatgelu.
- Cafodd llais mam ei alluogi gan sicrwydd ynghylch terfynau cyfrinachedd a chael gwrandawiad.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Sut wnaeth iaith ac ymddygiad y nyrs alluogi'r datgeliad?
- Beth allai fod wedi atal mam rhag siarad yn gynharach?
- Sut ydym ni'n sicrhau bod dioddefwyr mewn lleoliadau acíwt yn teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu?

### Gweithgaredd

**Chwarae rôl:** mae'r nyrs yn gofyn y cwestiwn agoriadol sy'n gwahodd datgeliad ("Weithiau mae babanod yn cael eu hanafu gan rywun gartref – oes unrhyw beth fel 'na wedi digwydd?"). Ymarferwch aros yn dawel a pheidio â barnu.

## 4 Myfyrdodau Proffesiynol

- Gofal wedi'i fodelu gan nyrs sy'n ystyriol o drawma: presenoldeb tawel, dilysu, camau nesaf clir.
- Roedd gweithredoedd bach yn bwysig: roedd gohirio rhyddhau yn rhoi amser; oedi diogel.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth wnaeth y staff yn dda a pham?
- Beth allai fod wedi mynd o'i le pe bai wedi bod yn frysiog neu'n feirniadol?

### Gweithgaredd

**Dyddlyfr myfyriol:** mae staff yn ysgrifennu'r hyn y byddent yn ei deimlo/ei ddweud yn ystod y pum munud cyntaf ar ôl datgeliad.

## 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Risg gorfforol uniongyrchol: chwydu, babi aflonydd, anaf nad yw'n ddamweiniol o bosibl – asesiad meddygol brys.
- Niwed emosiynol/perthynol: mam yn ofnus, yn ansicr ai'r tad oedd yn gyfrifol, ofn colli'r plentyn os bydd hi'n adrodd.
- Niweidiau eilaidd: risg o ailgysylltu ar unwaith â'r tramgwyddwr honedig (tad) ar ôl cael ei ryddhau; diogelwch teuluol a gallu i ofalu am faban wedi'i beryglu.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth yw'r risgiau uniongyrchol i Kylie a mam pe baent yn cael eu rhyddhau ar unwaith?
- Sut mae ofn cael plentyn wedi'i gymryd i ffwrdd yn atal datgeliad ac yn oedi ceisio cymorth?

### Gweithgaredd

**Ymarfer sgorio risg cyflym:** rhestrwch risgiau uniongyrchol, tymor byr a thymor canolig a rhowch y camau gweithredu sydd eu hangen yn eu trefn.

## 5 Penblethau Moesegol ac Emosiynol

- Roedd mam yn ofni cael ei barnu ac yn ofni y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd ei babi.
- Tensiwn moesegol: amddiffyn plentyn yn erbyn cefnogi rhiant.
- Straen staff: dicter tuag at y tramgwyddwr, ofn gwneud camgymeriad.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Sut i ddilysu ofn wrth esbonio rhannu gwybodaeth?
- Sut i ofalu am lesiant staff?

### Gweithgaredd

**Grŵp Bach:** drafftiwch sgriptiau tosturiol sy'n egluro rhannu gwybodaeth wrth ddilysu ofn rhieni.

## 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Rhaid i staff egluro terfynau cyfrinachedd yn glir: dim ond dweud wrth y rhai sydd "angen gwybod". Gwnaed hyn a galluogwyd datgeliad.
- Camau gweithredu ar unwaith: gohirio rhyddhau; hysbysu'r arweinydd diogelu; sicrhau nad oes unrhyw gyswllt heb ei reoli â'r tramgwyddwr honedig; cynnwys yr heddlu/diogelu plant yn ôl yr angen; dod o hyd i lety diogel (lloches).
- Dogfennaeth gyfoes.
- Gweithio amlasiantaeth: arweinydd diogelu, gofal cymdeithasol, heddlu, pediatreg, ymwelydd iechyd, lloches/IDVA.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth yw dyletswyddau cyfreithiol/moesegol y clinigwr pan fydd rhiant yn datgelu cam-drin posibl gan bartner?
- Cyswllt amserol â'r heddlu, ystyried diogelwch a chadw tystiolaeth.

### Gweithgaredd

Trosglwyddo efelychiedig rhwng nyrs Damweiniau ac Achosion Brys, arweinydd diogelu, meddyg pediatrig a gweithiwr cymdeithasol.

## 6 Dysgu ymarferol

- Ar unwaith: blaenoriaethu gofal a diogelwch y plentyn, egluro cyfrinachedd, cadw tystiolaeth, hysbysu'r Arweinydd Diogelu, ystyried atgyfeiriadau at yr heddlu, cynllunio diogelwch, eiriolaeth. Dogfennau. Dadfriffio staff.
- Gwnewch hyn: arhoswch yn dawel, dilyswch, gofynnwch gwestiynau caredig uniongyrchol, nodwch y camau nesaf.
- Peidiwch ag: addo cyfrinachedd llwyr, arwain, awgrymu bai, rhuthro.

### Gweithgaredd / chwarae rôl

- Senarios chwarae rôl: datgelu, rheoli'r troseddwr honedig, cynllunio diogelwch.
- Rhestr wirio: sefydlogi'r babi, egluro cyfrinachedd, gohirio rhyddhau, ffonio'r arweinydd diogelu, ystyried yr heddlu, cynnig cynghorydd annibynnol ar drais domestig (IDVA), darparu cyswllt/dilyniant, cofnodi ac uwchgyfeirio, dadfriffio staff.
- Neges i gloi: Fe wnaeth cyfathrebu tawel ac agored, uwchgyfeirio diogelwch mewn modd amserol, a chynllunio diogelwch adfer rheolaeth a diogelwch i'r fam a'r babi.

# Rheoli Datgeliad

**Rhan B: Taflen**

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

**Galluogi datgeliad diogel, amddiffyn babi, gweithredu diogelu amlasiantaeth cyflym.**

### Archwilio Llais y person sydd mewn perygl

- Sylwi ar arwyddion cynnar: pryder rhieni, cuddio gwybodaeth, ofn canlyniadau.
  - Defnyddiwch iaith dawel, anfeirniadol a phlaen; egluro terfynau cyfrinachedd.
  - Gwahoddiad agoriadol: "Weithiau mae babanod yn cael eu hanafu gan rywun gartref. Oes unrhyw beth fel 'na wedi digwydd?"

### Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Risg glinigol ar unwaith → asesiad pediatrig brys.
- Niwed emosiynol i'r fam: ofn, ansicrwydd; risg o ailgysylltu â'r tramgwyddwr honedig.

### Diogelu a dyletswydd gofal

- Gohirio rhyddhau os yw diogelwch yn aneglur; hysbysu'r arweinydd diogelu; atal cyswllt.
- Uwchgyfeirio: pediatreg, gofal cymdeithasol, yr heddlu, ymwelydd iechyd, IDVA/lloches.
- Cofnodi gair am air, amseroedd, enwau.

### Myfyrdodau proffesiynol

- Oedi rhyddhau os yw diogelwch yn aneglur; hysbysu'r arweinydd diogelu; atal cyswllt. – Uwchgyfeirio; pediatreg, gofal cymdeithasol, yr heddlu, ymwelydd iechyd, IDVA/lloches.
- Cofnodi gair am air, amseroedd, enwau.

### Penblethau moesegol ac emosiynol

- Cydnabod ofn cael plentyn wedi'i gymryd i ffwrdd; cydbwyso â diogelu plant; dadfriffio staff.

### Dysgu ymarferol

1. Sefydlogi'r babi → pediatreg.
2. Egluro'r terfynau cyfrinachedd.
3. Gohirio rhyddhau os yw'n anniogel.
4. Hysbysu'r arweinydd diogelu.
5. Ystyried yr heddlu/tystiolaeth.
6. Cynllun diogelwch (dim presenoldeb tramgwyddwr).
7. Cynnig lloches/eiriolaeth.
8. Cofnodi gair am air + amseriadau.
9. Trefnu dilyniant a chyswllt.
10. Dadfriffio staff

### Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Rhan 7).
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)
- Deddf Plant 1989/2004 (yn gymwys yng Nghymru).
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015; Gofyn a Gweithredu.
- Cyflawni'r Dystiolaeth Orau (E&W). - NICE NG76 / QS179.